Rhif: WG51063

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Terfynau gwariant ymgyrchoedd etholiadol ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn etholiadau'r Senedd

Chwefror 2025

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2024 ISBN Digidol: 978-1-83715-284-1

## Trosolwg

Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb o’r ymatebion a ddaeth i law Llywodraeth Cymru ynghylch ein hymgynghoriad:

- Terfynau gwariant ymgyrchoedd etholiadol ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn etholiadau'r Senedd.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 6 Medi 2024 a daeth i ben ar 1 Tachwedd 2024. Daeth 13 o ymatebion i law gan ystod o randdeiliaid a phartïon â buddiant.

Caiff ymateb Llywodraeth Cymru hefyd ei gynnig ar gyfer pob cwestiwn. Mae'r rhain yn rhoi barn gychwynnol Llywodraeth Cymru am yr ymatebion ar y cyd i'r cwestiwn o dan sylw yn yr ymgynghoriad. Gan y bydd gwaith pellach yn cael ei gynnal, barn dros dro yw hon.

## Camau i'w cymryd

Dogfen er gwybodaeth yn unig yw hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran Diwygio’r Senedd

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: DiwygiorSenedd@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen at y ddogfen ymgynghori: https://www.llyw.cymru/terfynau-gwariant-ymgyrchoedd-etholiadol-ar-gyfer-pleidiau-gwleidyddol-yn-etholiadaur-senedd

## Cynnwys

Cyflwyniad ........ 4

Ymgysylltu a'r ymgynghoriad ........ 5

Crynodeb o'r ymatebion ........ 7

Y camau nesaf ........ 15

## Cyflwyniad

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad rhwng 6 Medi 2024 a 1 Tachwedd 2024 ar gynigion ynghylch terfynau gwariant ymgyrchoedd etholiadol ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn etholiadau'r Senedd.

Bydd Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ("Deddf 2024") yn newid y system etholiadol y cynhelir etholiadau'r Senedd oddi tani ar gyfer pob etholiad o fis Ebrill 2026 ymlaen (mae etholiad nesaf y Senedd wedi'i drefnu ar gyfer 7 Mai 2026).

Mae'r system etholiadol bresennol ("y system aelodau ychwanegol") y darperir ar ei chyfer yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 yn defnyddio'r system aelodau ychwanegol, sy'n golygu bod gan bob etholwr ddwy bleidlais: un bleidlais mewn un etholiad etholaethol, a gynhelir o dan y system etholiadol cyntaf i'r felin, ac un bleidlais mewn un etholiad rhanbarthol, a gynhelir o dan system rhestr gaeedig sydd yn fath o gynrychiolaeth gyfrannol. Caiff pleidiau gyflwyno rhestrau gydag uchafswm o 12 ymgeisydd ar gyfer pob rhanbarth y maent yn ei ymladd. Mae 40 o etholaethau yn ethol yn ffurfiol un aelod yr un a phum rhanbarth yn ethol yn ffurfiol pedwar aelod yr un. Mae dyraniad y seddi rhanbarthol yn ystyried nifer y seddi etholaethol y mae pob plaid wedi'u hennill ar draws y rhanbarth hwnnw.

Bydd Deddf 2024 yn newid system etholiadol y Senedd i un gwbl gyfrannol lle y caiff pob aelod ei ethol ar yr un sail drwy restrau caeedig ("y system newydd"). Caiff pleidiau gyflwyno rhestrau gydag uchafswm o wyth ymgeisydd ym mhob etholaeth y maent yn ei hymladd. Mae gan bob etholwr un bleidlais mewn un etholiad etholaethol. Bydd 16 o etholaethau, pob un ohonynt yn ethol yn ffurfiol chwe Aelod.

| | Y system aelodau ychwanegol flaenorol | Y system gyfrannol newydd |
|---|---|---|
| **Etholaethau** | 40 | 16 |
| **Aelodau fesul etholaeth** | 1 | 6 |
| **Uchafswm maint rhestr pleidiau** | 1 | 8 |
| **Rhanbarthau** | 5 | 0 |
| **Aelodau fesul rhanbarth** | 4 | – |
| **Uchafswm maint rhestr pleidiau** | 12 | – |
| **Cyfanswm Aelodau a etholir yn ffurfiol** | 60 | 96 |

Mae treuliau etholiad yn dreuliau yr eir iddynt i gefnogi plaid wleidyddol gofrestredig neu ymgeisydd yn ystod y cyfnod wedi'i reoleiddio sy'n arwain at etholiad. Llywodraethir treuliau o'r fath gan reolau, gan gynnwys mewn perthynas â phwy a all fynd i wariant o'r fath, yr hyn y gellir ei wario arno, rheolau adrodd manwl a therfynau ar faint y gellir ei wario yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r terfynau gwario y gofynnwyd amdanynt yn yr ymgynghoriad yn ymwneud â'r gwariant y mae'r pleidiau neu'r ymgeiswyr hynny wedi'u codi eu hunain ac nid ydynt yn ymwneud ag arian cyhoeddus.

Mae terfynau treuliau etholiadau o dan y system aelodau ychwanegol yn wahanol rhwng etholiadau etholaethol ac etholiadau rhanbarthol. Mae terfynau ar wahân yn bodoli ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll dros blaid mewn etholaethau, pleidiau sy'n sefyll ymgeiswyr mewn etholaethau, a phleidiau sy'n sefyll rhestrau mewn rhanbarthau. Mae'r newid yn y system etholiadol, pan fo ymgeiswyr dim ond yn sefyll ar restr plaid a phan nad oes rhanbarthau, yn golygu na fydd y terfynau ar wahân hyn yn gwneud synnwyr mwyach.

Mae adran 21 o Ddeddf 2024 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau “i osod y terfynau sy’n gymwys i wariant ymgyrch yr eir iddo gan neu ar ran plaid gofrestredig sy’n ymladd un neu ragor o etholaethau mewn etholiad cyffredinol”.

Caiff treuliau etholiadol pleidiau eu rheoleiddio gan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (“Deddf 2000”). Bydd y rheoliadau y caiff Gweinidogion Cymru eu gwneud i osod terfynau ar wariant ymgyrchu yn diwygio'r Ddeddf honno. Dim ond drwy gydsyniad y Comisiwn Etholiadol y gellir gwneud y rheoliadau.

## Ymgysylltu a'r ymgynghoriad

Gwahoddwyd sylwadau yn rhan o gyfnod ymgynghori wyth wythnos o hyd a ddechreuodd ar 6 Medi 2024 ac a ddaeth i ben ar 1 Tachwedd 2024. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd yr ymatebwyr yn gallu cyflwyno'u barn a'u sylwadau ar bapur, drwy e-bost neu ar-lein, ac yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Yn ogystal, cynhaliodd swyddogion gyfarfod briffio technegol y gwahoddwyd pob plaid wleidyddol gofrestredig yng Nghymru iddo. Gwnaeth cynrychiolwyr o ddwy blaid fynychu'r cyfarfod hwn. Gofynnodd un blaid gofrestredig arall am gyfarfod briffio technegol ar wahân, a gafodd ei ddarparu gan swyddogion. Bu swyddogion hefyd yn bresennol mewn dau gyfarfod o Banel Pleidiau Gwleidyddol y Senedd i gynnal sesiwn briffio technegol ynghylch yr ymgynghoriad. Roedd cynrychiolwyr o'r pedair plaid a gynrychiolir yn y Senedd yn bresennol yn y sesiynau hyn. Trefnwyd yr holl

sesiynau hyn gan y Comisiwn Etholiadol a oedd hefyd yn bresennol. Gan mai sesiynau briffiau technegol oedd y rhain, ni chafwyd unrhyw ymatebion yn rhan ohonynt, gan y cyflwynwyd yr holl ymatebion yn electronig.

## Crynodeb o'r ymatebion

Diben y ddogfen hon yw rhoi crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law. Nid yw’n ceisio cofnodi pob pwynt a rannwyd gan yr ymatebwyr.

Caiff ymateb Llywodraeth Cymru hefyd ei gynnig ar gyfer pob cwestiwn. Mae'r rhain yn rhoi barn gychwynnol Llywodraeth Cymru am yr ymatebion ar y cyd i'r cwestiwn o dan sylw yn yr ymgynghoriad. Gan y bydd gwaith pellach yn cael ei gynnal, barn dros dro yw hon.

Cafwyd cyfanswm o 13 o ymatebion i’r ymgynghoriad. Mae’r math o ymatebydd wedi’i rannu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Unigolion: | 7 (8 ymateb) |
| Pleidiau gwleidyddol cofrestredig a sefydliadau eraill: | Ymatebodd 4 i'r cwestiynau a chyflwynodd 1 ymateb cyffredinol |

### Ymatebion amhenodol

Cynigiodd pedwar unigolyn (mewn pum ymateb) ymateb cyffredinol yn hytrach nag ymateb i bob cwestiwn yn unigol. Roedd yr ymatebion hyn yn ffafrio lleihau neu beidio â rhoi unrhyw arian cyhoeddus i bleidiau neu ar gyfer gosod terfynau treuliau yn £0. Gan nad yw'r ymatebion yn benodol i gwestiwn, cânt eu hystyried yn gyffredinol ac nid mewn perthynas ag unrhyw gwestiwn penodol isod.

Gwnaeth un o'r ymatebion gan sefydliad ganolbwyntio ar y mater yn ymwneud ag ymgeiswyr ar y cyd ac effaith eu tynnu ar derfynau gwariant pleidiau nad ydynt yn sefyll ymgeiswyr nad ydynt yn ymgeiswyr ar y cyd. Gan nad yw hyn yn ymwneud â'r cwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad hwn, ni chânt eu hystyried yn rhan o'r casgliadau hyn.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r ymatebion a'r dymuniad gan rai i leihau gwariant. Mae'n bwysig nodi bod yr ymgynghoriad hwn yn ymdrin â therfynau gwariant etholiadol ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig sy'n gwario arian y maent wedi'i godi eu hunain ac nad yw'n ymwneud ag unrhyw arian cyhoeddus. Ar gyfer pleidiau sy'n gwario eu harian eu hunain, rydym o'r farn ei bod yn rhan bwysig o'r broses ddemocrataidd eu bod yn gallu cyfathrebu'n effeithiol ag etholwyr a bod ymgyrchu yn ysgwyddo costau na ellir eu hosgoi i'r pleidiau. Byddai lleihau'r terfynau gwariant i sero yn tanseilio democratiaeth yng Nghymru ac yn amddifadu etholwyr o'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniad ar sail wybodaeth mewn etholiad y Senedd.

Bydd yr ymgynghoriad presennol ynghylch ail-wneud Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ("y Gorchymyn Cynnal Etholiadau") yn cynnig cyfle i randdeiliaid a'r cyhoedd wneud sylwadau ar amrywiaeth ehangach o faterion sy'n ymwneud â sut y caiff etholiadau'r Senedd eu cynnal.

### Cwestiwn 1. Beth yw eich barn am addasrwydd y dull arfaethedig o addasu uchafswm terfynau ymgyrchu cyfanredol i weithio gyda'r system etholiadol newydd? Sut, os o gwbl, y byddech yn newid y dull arfaethedig?

Crynodeb o’r ymatebion

Roedd un unigolyn yn anghytuno â'r dull gweithredu a awgrymwyd gan nodi ei fod eisiau terfyn o £120,000 fesul etholaeth (£20,000 fesul ymgeisydd, hyd at chwech ohonynt). Roedd un yn cytuno â'r dull gweithredu. Roedd un yn cytuno â'r dull gweithredu cyffredinol ond yn anghytuno â defnyddio'r terfynau ymgeiswyr cyfanredol yn rhan o'r terfyn ar gyfer y system rhestr gaeedig newydd.

Roedd tri o'r sefydliadau o blaid dull gweithredu cyffredinol neu nid oedd ganddynt unrhyw faterion penodol yn ymwneud ag ef. Roedd un yn anghytuno â'r dull gweithredu, gan esbonio y byddai llai o etholaethau yn golygu llai o gostau, ac felly, y dylai'r terfyn cyffredinol leihau o dan y system newydd er mwyn cynnal gallu presennol y pleidiau i ymgyrchu.

Awgrymodd un sefydliad hefyd y dylid casglu tystiolaeth o etholiad 2026 i lywio'r gwaith o gynnal adolygiad ehangach wedi hynny.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r ymatebion ac yn croesawu'r gefnogaeth ar gyfer y dull gweithredu cyffredinol, gan hefyd gofio bod rhywfaint o gefnogaeth i leihau'r terfyn cyffredinol, a gaiff ei drafod mewn cwestiwn diweddarach.

Rydym hefyd yn nodi’r awgrymiad i adolygu terfynau gwariant ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig yn rhan o'r adolygiad ôl-etholiad arfaethedig gan bwyllgor o’r Senedd, y bydd cynnwys yr adolygiad hwnnw yn benderfyniad ar gyfer Aelodau o'r seithfed Senedd.

### Cwestiwn 2. Sut, os o gwbl, y dylai terfynau treuliau amrywio rhwng etholaethau?

Crynodeb o’r ymatebion

Roedd dau unigolyn o blaid cysondeb rhwng etholaethau, ac awgrymodd un y gallai fod achos dros amrywio os oes gwahaniaethau daearyddol sylweddol rhwng etholaethau.

Roedd dau sefydliad o blaid terfyn cyson rhwng etholaethau. Roedd un o blaid amrywiad bychan rhwng etholaethau sirol ac etholaethau bwrdeistrefol er mwyn adlewyrchu costau uwch y tu allan i ardaloedd trefol. Roedd un sefydliad yn dymuno ychwanegu elfen fesul etholwr at y terfynau arfaethedig a fyddai hefyd yn amrywio yn seiliedig ar ba mor wledig yw etholaeth. Teimlai y dylai hyn fod yn seiliedig ar y ddwy haen a ddefnyddir ar hyn o bryd ynghyd â thrydedd haen ychwanegol ("sir fawr").

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r ymatebion a oedd yn nodi y byddai terfyn cyson rhwng etholaethau yn fwy syml. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y terfynau gwariant cyffredinol arfaethedig a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori yn cynnwys yr holl derfynau gwariant presennol, gan gynnwys amrywiadau rhwng etholaethau bwrdeistrefol ac etholaethau sirol. Gan y bydd terfynau yn cael eu trin yn rhan o un terfyn cenedlaethol o dan y cynigion, ac y bydd gan bleidiau ryddid i rannu'r terfyn hwnnw fel y dymunant, ni fyddai gwahaniaeth ymarferol i unrhyw blaid sy'n sefyll ym mhob etholaeth yn sgil amrywiadau rhwng etholaethau.

I'r rhai sydd dim ond yn sefyll mewn un etholaeth, neu mewn nifer bach o etholaethau, gallai hyn wneud gwahaniaeth bach, ond nid ystyrir ei fod yn wahaniaeth mawr gan gofio y bydd etholwyr etholaethau ar gyfer 2026 yn y lleiafrif (+/- 10%) a byddant yn cael eu cadw yn y lleiafrif (+/- 10%) mewn adolygiadau ffiniau yn y dyfodol, gan sicrhau nad oes ystod fawr o boblogaethau.

Yn olaf, yn unol â system San Steffan, ceir dim ond pedair etholaeth fwrdeistrefol, ac mae'r cynigion gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ynghylch parau etholaethau ar gyfer etholiad Senedd 2026 yn eu dynodi i gyd yn etholaethau sirol, heb unrhyw etholaethau bwrdeistrefol. Byddai hyn, yn ddibynnol ar y penderfyniadau terfynol, yn lleihau ymhellach effaith unrhyw wahaniaethu.

## Cwestiwn 3. Beth yw eich barn am addasrwydd y tri dull a amlinellir ynghylch y terfynau cenedlaethol uchaf ar gyfer plaid?

Crynodeb o’r ymatebion

Roedd un unigolyn yn hapus â'r holl opsiynau, ond ni wnaeth nodi ei opsiwn a ffefrir. Nododd un arall mai NL3 (£1,147,493) oedd ei ddewis allan o'r tri, ond nododd efallai mai dull gwell fyddai cynyddu terfynau'r pleidiau 10-20% a pheidio â chynnwys y terfynau ymgeisydd. Nododd traean y dylid lleihau'r terfynau, gan awgrymu mewn man arall y dylent fod yn £20,000 fesul ymgeisydd hyd at £120,000 fesul etholaeth.

Roedd un sefydliad o blaid NL1 (£600,000), un o blaid NL2 (£947,493) ac un o blaid NL3. Awgrymodd y sefydliad olaf efallai mai NL3 yw'r opsiwn mwyaf syml os mai'r

bwriad yw cynnal y terfynau presennol ac y byddai o'r farn bod yr opsiynau eraill yn golygu newid mwy sylweddol o'r trefniadau presennol.

Awgrymodd un sefydliad y dylid cael lwfans ar gyfer gwariant cyffredinol plaid nad yw'n gysylltiedig ag unrhyw restr plaid.

Nododd un arall fod uchafswm terfynau etholiad cyffredinol y DU ar gyfer Cymru yn llawer uwch, sef £1.7 miliwn, ac awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r terfynau yn dilyn etholiad 2026 i sicrhau ei bod yn ystyried unrhyw gostau cynyddol o ran ymgyrchu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion ac yn cydnabod nad oes consensws o ran y cwestiwn hwn. Oni bai bod cwestiynau eraill yn nodi rhesymau i'r gwrthwyneb, yr opsiwn a ffefrir gan y llywodraeth felly yw ceisio'r opsiwn a nodwyd yn syml o ran terfynau cyfanredol presennol ar gyfer plaid wleidyddol gofrestredig mewn etholiad y Senedd.

Er y deellir hynny'n wahanol, caiff uchafswm cyfanswm y terfyn presennol cyffredinol (NL3) ei ffafrio felly fel y defnydd mwyaf syml o'r egwyddor o ran cynnal terfynau cyffredinol presennol.

### Cwestiwn 4. Gan gyfeirio at y ddau opsiwn a ddarperir, sut rydych yn credu y dylid ystyried nifer yr ymgeiswyr ar restr plaid wrth gyfrifo terfynau treuliau?

Crynodeb o’r ymatebion

Roedd tri unigolyn o blaid ystyried nifer yr ymgeiswyr ar restr plaid wrth gyfrifo terfynau sy'n gysylltiedig â sefyll mewn etholaeth (opsiwn 2), gydag un yn dadlau bod hyn yn gyson â'r egwyddor a sefydlwyd o dan y system bresennol.

Roedd dau sefydliad yn ffafrio opsiwn 1 (dim elfen fesul ymgeisydd) ac roedd 2 yn ffafrio opsiwn 2 (elfen fesul ymgeisydd).

Cafwyd barn a oedd yn gwrthwynebu'n uniongyrchol ynghylch pa opsiwn oedd yn decach, o ran p'un a oedd ymladd mwy o seddi (ac felly mwy o bleidleisiau) yn cynyddu costau ymgyrchu ai peidio, a pha opsiwn fyddai'n arwain at bleidiau yn fwy tebygol o sefyll ymgeiswyr papur er mwyn cynyddu eu terfyn gwariant.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Dyma'r cwestiwn lle ceir yr ystod fwyaf eang o safbwyntiau, ac nid oes consensws clir ar ddull gweithredu a ffefrir. Er bod mwy o gefnogaeth ar gyfer elfen fesul ymgeisydd i derfyn plaid, rydym yn cydnabod y caiff dadleuon dilys eu gwneud o ran y ddau opsiwn.

Gallai’r ffaith bod ystod mor eang o sylwadau wedi’u datgan ynglŷn ag elfen mor sylfaenol o'r system (ac eraill yn yr ymgynghoriad hwn) atgyfnerthu’r awgrym ar gyfer adolygiad mwy sylfaenol o derfynau treuliau ar ôl etholiad 2026, fel yr awgrymwyd yn un o'r ymatebion. Fel y cyfeiriwyd ato mewn ymateb cynharach, byddai cynnal adolygiad o'r fath yn fater i’w ystyried gan y seithfed Senedd yn rhan o’r adolygiad ôl-etholiad arfaethedig.

Byddai hynny'n parhau i olygu bod angen sefydlu model ar gyfer yr etholiad sydd ar ddod, ac rydym felly yn ystyried y cynigion ymhellach. Bydd hyn yn cael ei lywio gan ddymuniad i efelychu mor agos â phosibl y system ranbarthol a'r system etholaethol gyfunol bresennol, yn ogystal â cheisio lleihau'r risg o ymgeiswyr papur – a ddiffinnir fel ymgeiswyr a gaiff eu sefyll gan blaid mewn un etholaeth yn unswydd i geisio cynyddu terfyn gwariant y blaid honno mewn etholaeth arall.

## Cwestiwn 5. Os yw'r terfyn yn cynyddu gyda nifer yr ymgeiswyr ar restr plaid, a ydych yn credu y dylai hyn gyrraedd ei uchafswm ar gyfer rhestr o chwech, i gyd-fynd â nifer y seddi sydd ar gael?

<u>Crynodeb o’r ymatebion</u>

Atebodd pedwar unigolyn mai chwe ymgeisydd ddylai'r terfyn uchaf fod.

Gwnaeth y ddau sefydliad a wrthwynebodd terfynau fesul ymgeisydd nodi y byddai'n well ganddynt, pe bai un, derfyn fesul ymgeisydd a fyddai'n agosach at bedwar neu bum ymgeisydd. Roedd y ddau sefydliad a oedd yn ffafrio elfen fesul ymgeisydd o blaid terfyn chwe ymgeisydd.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>

Gan ganolbwyntio ar nifer yr ymgeiswyr y dylai unrhyw elfen fesul ymgeisydd fod yn gyfyngedig iddo, nid ydym yn cefnogi dull gweithredu sy'n ceisio amcangyfrif neu dybio uchafswm tebygol y seddi y gallai unrhyw blaid eu hennill mewn etholaeth gan mai mater i'r pleidleiswyr yw hynny. Rydym felly yn derbyn barn y mwyafrif o'r ymatebion, a'r holl ymatebion gan y rhai sydd o blaid elfen fesul ymgeisydd, y dylai'r terfyn, os bydd un o'r fath, fod yn derfyn o chwe ymgeisydd. Mae hyn yn cynnig cyfiawnhad symlach, drwy fod yn gysylltiedig â nifer y seddi a gaiff eu hymladd, ac felly â'r rhesymeg sylfaenol o ran trosglwyddo elfen fesul sedd i derfynau treuliau.

## Cwestiwn 6. Yn ogystal ag elfen fesul ymgeisydd, sut, os o gwbl, y dylid cymhwyso elfen ‘sefydlog’, fesul etholaeth i derfyn treuliau ymgyrch plaid?

<u>Crynodeb o’r ymatebion</u>

Roedd un unigolyn o blaid cynigion yr ymgynghoriad. Awgrymodd un arall derfyn o £20,000 fesul ymgeisydd, ac felly dim elfen 'sefydlog' o gwbl. Awgrymodd yr unigolyn olaf elfen sefydlog o 22% ac elfen fesul ymgeisydd o 13% (x6).

Roedd un sefydliad yn teimlo y dylai'r elfen sefydlog fod yn 100% o'r terfyn. Roedd un arall yn teimlo y dylai'r elfen fesul ymgeisydd fod yn 100% o'r terfyn, ac y dylai'r elfen sefydlog felly fod yn 0%. Roedd un yn cytuno â'r darlun yn yr ymgynghoriad ynghylch elfen sefydlog o £12,500 ac elfen fesul ymgeisydd o £4,200. Roedd y sefydliad olaf yn teimlo pe bai elfen fesul ymgeisydd y byddai hefyd angen elfen sefydlog.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Gan mai dyma'r cwestiwn tebyg i'r un ynghylch elfen fesul ymgeisydd, nid yw'n syndod bod yr ymatebion wedi'u rhannu'n debyg ac nad oes consensws o ran yr opsiwn a ffefrir. Roedd yr ymatebion yn amrywio o ran barn, hynny yw, cafwyd ymatebion yn nodi y dylai’r elfen sefydlog fod yn 100% o'r terfyn ac ymatebion eraill yn nodi y dylai fod yn 0% o'r terfyn. O ganlyniad, mae angen cynnal rhagor o waith i ddatblygu’r safbwynt terfynol.

### Cwestiwn 7. A ddylai'r elfen sefydlog gychwynnol ‘fesul etholaeth’ fod yn fwy na'r elfen ‘fesul ymgeisydd’ ychwanegol o derfyn y blaid?

Crynodeb o’r ymatebion

Roedd un unigolyn o'r farn na ddylid cael elfen sefydlog er mwyn osgoi cymhlethdod. Roedd un arall o'r farn na ddylai'r elfen sefydlog fod yn fwy na'r elfen fesul ymgeisydd. Roedd yr unigolyn olaf o'r farn y dylai'r elfen sefydlog fod yn fwy.

Roedd un sefydliad yn anghytuno ag elfen fesul ymgeisydd ond roedd o'r farn pe byddai elfen o'r fath y dylai fod yn llai na 10% (hynny yw, cyfanswm o 10% ar gyfer rhestr o chwech dros restr o un). Roedd un arall o'r farn na ddylid cael elfen sefydlog. Roedd traean o'r farn y dylai'r elfen sefydlog fod yn uwch na'r elfen fesul ymgeisydd. Roedd y sefydliad olaf o'r farn y byddai angen i'r elfen sefydlog fod yn llawer uwch na'r elfen fesul ymgeisydd - i'r graddau y dylai rhestr o un gael y mwyafrif helaeth o'r terfyn uchaf.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Yn yr un modd â chwestiynau blaenorol ynghylch elfen fesul ymgeisydd ac elfen fesul etholaeth unrhyw derfyn, mae'r safbwyntiau a rannwyd yn cwmpasu'r ystod lawn o opsiynau posibl ac yn dangos nad oes consensws.

Mae angen felly cynnal rhagor o waith i gyrraedd cyfaddawd cyn etholiad 2026.

### Cwestiwn 8. Pa newidiadau, os o gwbl, y byddech yn eu gwneud i'r dull hwn o ymdrin ag Opsiwn 2 o ran dyraniadau fesul etholaeth, dyraniadau fesul ymgeisydd, a chyfansymiau terfynau uchaf?

Crynodeb o'r ymatebion

Nododd un unigolyn y byddai'n well ganddo leihau maint yr elfen sefydlog er mwyn helpu i leihau'r risg o hyrwyddo'n ddiangen y pleidiau sydd â llai o ymgeiswyr, ac y dylid hefyd ystyried lleihau'r terfyn cyffredinol. Gwnaeth un unigolyn awgrymu swm gostyngedig yn gyffredinol, a dim ond terfyn fesul etholaeth. Cytunodd trydydd unigolyn â'r cynigion fel y'u nodwyd.

Ymatebodd tri sefydliad i'r cwestiwn hwn. Gwrthododd un y dull gweithredu cyfan ar sail ei farn y byddai costau yn is yn sgil llai o etholaethau. Fodd bynnag, pe bai'r dull gweithredu a awgrymwyd yn cael ei roi ar waith, roedd y sefydliad yn teimlo y dylai'r gwahaniaeth rhwng rhestr o un a rhestr o chwech fod yn llawer llai - gan gynrychioli dim ond cynnydd o 10% (ar gyfer rhestr o 6 dros restr o 1).

Roedd un arall o blaid y dull gweithredu NL3 a awgrymwyd, ond y dylid dileu'r elfen sefydlog, gan ddarparu cyfanswm uchaf o tua £700,000 ar gyfer plaid sy'n sefyll dim ond un ymgeisydd ym mhob etholaeth.

Roedd y sefydliad olaf yn ffafrio cael dim ond elfen sefydlog yn unig (dim elfen fesul ymgeisydd) gan awgrymu na fyddai cael y ddau yn sicrhau tegwch. Nododd, pe byddai elfen fesul ymgeisydd, y dylai fod yn llawer llai o gymharu â'r elfen sefydlog.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Gan fod y cwestiwn hwn yn adeiladu ar y rhai blaenorol, mae'r ymatebion felly'n adlewyrchu'r gwahaniaethau cryf mewn barn sydd wedi'u nodi eisoes. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen am ragor o waith i geisio pontio'r gwahaniaethau hyn.

### Cwestiwn 9: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Crynodeb o'r ymatebion

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, nid oedd neb yn teimlo y byddai unrhyw effaith ar y Gymraeg.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno na ddisgwylir i'r cynigion gael unrhyw effaith ar y Gymraeg.

**Cwestiwn 10: Yn eich barn chi, a ellid geirio neu newid y cynnig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Crynodeb o’r ymatebion

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, nid oedd neb yn teimlo y byddai unrhyw effaith ar y Gymraeg.

Awgrymodd un o'r sefydliadau y gallai'r cynnig ddatgan [y sefyllfa bresennol] na chaiff costau cyfieithu eu cynnwys yn rhan o wariant swyddogol Plaid.

Awgrymodd sefydliad arall y dylid monitro ac adolygu'r defnydd o'r Gymraeg yn ystod etholiad 2026 er mwyn nodi rhagor o gyfleoedd deddfwriaethol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo defnyddio’r Gymraeg yn etholiadau'r Senedd ac yn nodi y gallai'r adolygiad arfaethedig o'r newidiadau etholiadol yn dilyn etholiad 2026 fod yn gyfrwng defnyddiol i asesu effaith y newidiadau ar y Gymraeg.

**Cwestiwn 11. Rhowch unrhyw sylwadau ychwanegol sydd gennych mewn perthynas â therfynau treuliau etholiad y Senedd ar gyfer pleidiau gwleidyddol.**

Crynodeb o’r ymatebion

Ymatebodd un unigolyn na ddylid caniatáu rhoddion mewn perthynas â threuliau etholiad. Roedd un arall o'r farn ei fod yn gobeithio y byddai'r cynigion yn helpu pleidiau llai o ran maint. Nododd yr unigolyn olaf y dylid adolygu terfynau bob tair blynedd a'u haddasu yn unol â chwyddiant er mwyn osgoi cynnydd mawr.

Ychwanegodd y sefydliadau sylwadau ynghylch y canlynol: terfynau treuliau personol a dymuniad i'w cynyddu; lwfansau treuliau ar gyfer ymgeiswyr anabl sy'n wynebu costau uwch; a'r angen i egluro pa effaith, os o gwbl, fydd y cynigion yn ei chael ar ymgyrchwyr di-blaid.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid yw rhai o'r materion a godwyd yn ymwneud â'r materion yr ymgynghorwyd arnynt, ond gallant fod yn berthnasol i'r ymgynghoriad sydd ar ddod ynghylch diweddaru'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau.

## Y camau nesaf

Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn wedi'u dadansoddi a'u hystyried ac maent wedi helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymhellach gynigion sy'n ymwneud â therfynau treuliau etholiad y Senedd ar gyfer pleidiau cofrestredig.

Bydd hyn hefyd yn llywio rhai elfennau o'r ymgynghoriad ynghylch y Gorchymyn Cynnal Etholiadau wedi'i ddiweddaru yn sgil y ffaith y rhoddir sylw i derfynau treuliau ymgeiswyr annibynnol yn y Gorchymyn hwnnw.

Bydd gwaith yn mynd rhagddo yn awr i lunio cyfres o reoliadau, gan gynnwys dogfennau cysylltiedig, i'w cyflwyno gerbron y Senedd.

Gan fod angen cydsyniad y Comisiwn Etholiadol wrth arfer pwerau adran 21, bydd rheoliadau drafft a dogfennau yn cael eu rhannu â'r Comisiwn Etholiadol cyn eu gosod gerbron y Senedd.

## Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd ymatebion gan y canlynol:

- Unigolyn a oedd am aros yn ddienw
- Unigolyn a oedd am aros yn ddienw
- Unigolyn a oedd am aros yn ddienw
- Unigolyn a oedd am aros yn ddienw (dau ymateb)
- Eifion M Jones
- Comisiwn Etholiadol Cymru
- Ni ddarparwyd enw
- Plaid Cymru
- Yr Athro Justin Fisher
- Y Blaid Gydweithredol
- Plaid Werdd Cymru
- Llafur Cymru